**Tua thri o'r gloch**

**A thua thri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, 'Eli, Eli, lema sabachthani,' hynny yw, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?'** (Mathew 27:46).

Dyma'r ail o ymadroddion Iesu ar y groes. Mae rhai wedi ei ddisgrifio fel 'cri'r gadawiad'. Mae'n un o'r ymadroddion mwyaf dolefus a glywyd erioed, ac mae'r ffaith mai Mab Duw a lefarodd y geiriau yn dwysáu angerdd y gri.

**Yr amser**

Mae hyn yn digwydd ar y Groglith, wrth gwrs. Mae Iesu yng nghanol poenau dirdynnol y groes Rufeinig. Mae'n dioddef yr hyn a ddioddefodd miloedd o 'droseddwyr' eraill. Wrth gwrs, yr oedd Iesu yn ddieuog o unrhyw drosedd yn erbyn Rhufain, ac yr oedd cyhuddiad yr Iddewon yn codi o ddallineb ysbrydol rhyfeddol. Yn bellach, nid oedd Iesu wedi cyflawni unrhyw bechod, hyd yn oed.

Mae'r gri yma, fodd bynnag, yn dangos dioddefaint ysbrydol y Meseia. Fel yr oedd yr holl wlad wedi ei chuddio mewn tywyllwch ers teirawr, mae'r gri yn cyfleu nos ddu enaid y Gwaredwr.

Mae'n help i gofio fod y geiriau hyn yn dod o Salm 22, ac mae darllen y Salm yn rhoi golwg arbennig i ni o ing ac unigrwydd Oen Duw. Dyma flas o'r adnodau cyntaf: 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael, ac yn cadw draw rhag fy ngwaredu ac oddi wrth eiriau fy ngriddfan? O fy Nuw, gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid wyt yn ateb, a'r nos, ond ni chaf lonyddwch' (1-2).

**Y pwrpas**

Pam, felly, oedd Iesu'n dioddef hyn? Wel, ar y groes, yr oedd yn cynrychioli pechaduriaid, ac yn dioddef cosb eu pechod drostynt. 'Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef' (2 Corinthiaid 5:21).

Mae'r groes yn dangos agwedd Duw cyfiawn at bechod. Ni allai ei anwybyddu na'i sgubo dan y carped. Gan fod pechod yn wrthryfel yn erbyn safon Duw, rhaid oedd ei gosbi. Rhyfeddod yr Efengyl yw bod Duw wedi cosbi ei Fab ei hun, (a'i rhoes ei hun o'i fodd), yn lle'r pechadur. Fe wnaethpwyd Crist yn bechadur gan roi ein budreddi ni arno Ef. Ef oedd yr iawn dros ein pechodau ni.

'Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni, cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni' (Eseia 53:5). Ac eto yn Galatiaid 3:13:

'Crist a'n llwyr brynodd oddi wrth felltith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felltith trosom, canys y mae yn ysgrifenedig, "Melltigedig yw pob un sydd yng nghrog ar bren"'.

**Yr arwyddocâd i ni**

**Difrifoldeb pechod**

Mae aberth y groes yn dangos bod Duw yn gyfiawn ac yn sanctaidd, ac mae'n amhosibl iddo dderbyn pechadur gyda'i bechod, sydd wedi tramgwyddo hawliau Duw arnom. Dywed Duw trwy Eseia: 'ond eich camweddau chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw, a'ch pechodau chwi a barodd iddo guddio'i wyneb' (59:2). Dyma sydd yn gyfrifol am angerdd cri'r Meseia ar y groes. Mae pechod yn ddifrifol, gan ei fod yn ein gwahanu oddi wrth ein Creawdwr. Dylai hyn ein hatgoffa o sefyllfa pob pechadur sydd heb gymodi â Duw trwy Iesu Grist.

**Dyma'n haeddiant ni**

Os mai dyma brofodd yr Arglwydd Iesu wrth gymryd ein pechod ni, dyma mae ein pechod yn ei haeddu, felly. Yn dilyn hynny, dyma fyddwn yn ei wynebu yn uffern os na fyddwn yn ymddiried yng ngwaed Crist i'n glanhau o'n pechod. Mae Iesu'n cyfeirio at uffern fel 'y tywyllwch eithaf', a dyna brofodd Iesu trosom ar y groes.

**Dylem edifarhau**

Os ydy pechod mor ddifrifol, ac yn peri i Dduw ei ffieiddio a'i gondemnio, dylem edifarhau a dylem ofyn am help yr Ysbryd Glân i gael yr un ffieidd-dra tuag at bob pechod. Rhaid troi yn ddiolchgar at Grist, er mwyn cael ein hachub o afael pechod a dod i berthynas iawn â Duw, ac i gael ein newid ganddo hefyd.

**Dyfnder cariad Duw**

Ar yr un pryd, mae'r groes yn dangos cariad Duw yn trefnu ffordd i'n hachub, gyda'r Tad yn anfon ac yn aberthu ei Fab, a'r Mab yn dod o'i fodd fel Oen i'r lladdfa.

> Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
> cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben,
> fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un
> i achub gwael, golledig, euog ddyn. (*Pedr Fardd*)

Oherwydd y gri ingol yma, does dim rhaid i ni fynd i'r un tywyllwch ofnadwy. Mae Duw wedi darparu dihangfa i ni yn Iesu Grist. Dylem dreulio gweddill ein hoes yn ei addoli ac yn ei wasanaethu mewn cariad.

***John Treharne***